

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

28 Mawrth 2023


Annwyl Lywydd,

Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol

Yn ein cyfarfod ar 23 Mawrth, trafododd yr Aelodau yr [ail Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol](#) ar y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol a gyfeiriwyd at y Pwyllgor ar 14 Mawrth. Gan nad yw'r diwygiadau a nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn gwneud unrhyw newidiadau sylfaenol i fwriad y Bil, nid yw'r Aelodau'n teimlo bod angen gosod adroddiad ychwanegol. Fodd bynnag, hoffai'r Pwyllgor achub ar y cyfle hwn i gofnodi ei gefnogaeth o ddefnydd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru o'r Bil hwn i barhau â'u cefnogaeth i Wcráin a'i phobl.

Gan fod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol wedi cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad hefyd, rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS er gwybodaeth iddo.

Cofion cynnes,



Darren Millar AS

Cadeirydd Dros Dro: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

